

24/03/2023

Annwyl Riant / Gofalwr

Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) – Disgyblion Blwyddyn 1 a 2

Cyflwynwyd Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd(UPFSM) i bob disgybl mewn dosbarth meithrin a Derbyn llawn amser ym mis Medi 2022.

O Ebrill 17 2023 , bydd UPFSM ar gael i holl ddisgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Y nod wedyn yw ei gyflwyno i Flynyddoedd 3 a 4 o fis Medi 2023 ac i Flynyddoedd 5 a 6 erbyn diwedd blwyddyn academaidd 23/24, a bydd cadarnhad pellach o'r cyfnodau hyn o'r broses cyflwyno yn cael ei ddarparu yn nes at yr amser.

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth ac i allu darparu cinio i'r rhai sydd ag unrhyw anghenion dietegol arbennig, mae hyn yn cynnwys dewisiadau llysiuol yn ogystal â diet moesegol / crefyddol, yn ogystal ag anghenion meddygol/alergen, mae'n ofynnol i chi gwblhau Ffurflen Ddietegol Arbennig a llwytho dogfennaeth berthnasol sy'n cefnogi unrhyw alergedd / diet rhagnodedig.

Gellir dod o hyd i'r ffurflen drwy ddefnyddio'r ddolen isod:

<https://www.merthyr.gov.uk/do-it-online/request-or-apply/special-dietary-requirements-form/?lang=cy-GB&>

Mae'n hollbwysig eich bod yn cwblhau'r ffurflen hon os oes gan eich plentyn anghenion dietegol arbennig er mwyn i ni allu darparu bwydlen briodol.

Anogir pob rhiant i archebu pryd(au) eu plant ymlaen llaw drwy ParentPay. Bydd eich plentyn wedyn yn dewis ei bryd yn yr ysgol wrth gofrestru.

Prydau Ysgol Am Ddim / Mynediad PDG (Grant Gwisg Ysgol)

Er bod hawl i brydau ysgol am ddim yn cael ei gyflwyno i bob disgybl mewn ysgolion cynradd dros y flwyddyn nesaf, mae **Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod teuluoedd cymwys yn gwneud cais am statws 'prydau ysgol am ddim'**. Bydd gwneud cais am statws 'pryd ysgol am ddim' yn rhoi Grant Mynediad PDG (Grant Gwisg Ysgol) o **£225 i chi fesul plentyn cymwys, y gellir ei ddefnyddio ar wisg ysgol, offer Addysg Gorfforol a TG ar gyfer eich plentyn.**

Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau a amlinellir isod ac na ydych wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'ch plentyn o'r blaen, gwnewch gais am yr hawl i statws Prydau Ysgol Am Ddim/Grant Mynediad PDG (Grant Gwisg Ysgol) .

Mae budd-daliadau cymhwysol yn cynnwys:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999

Commented [SJ1]: PDG yw'r acronym sy'n cael ei ddefnyddio yn Gymraeg a Saesneg

- Yr elfen warantedig o Gredyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad oes ganddo hawl hefyd i Gredyd Treth Gwaith a bod gennych incwm gros blynyddol o ddim mwy na £16,190)
- Credyd Treth Gwaith dilynol - a delir am 4 wythnos ar ôl i chi roi'r gorau i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol - os gwnewch gais ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 rhaid i incwm eich cartref fod yn llai na £7,400 y flwyddyn (ar ôl treth a heb gynnwys unrhyw fudd-daliadau a gewch)

Yn ogystal â derbyn Grant Mynediad PDG o £225 fesul plentyn cymwys, bydd ysgol eich plentyn a'r Cyngor hefyd yn derbyn arian ychwanegol, y gellir ei wario i gefnogi disgyblion sy'n dysgu yn yr ysgol.

Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau cymhwysol uchod, gwnewch gais am statws prydau ysgol am ddim / Mynediad PDG (grant Gwisg Ysgol) ar-lein drwy'r ddolen ganlynol

<https://www.merthyr.gov.uk/resident/benefits-and-grants/apply-for-free-school-mealspdg-access-clothing-grant/>

Os oes gennych unrhyw blant yn yr ysgol gynradd sydd eisoes yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim, byddant yn parhau i gael hynny, ac nid oes angen unrhyw gamau pellach ar gyfer y plant hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â Phrydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, anfonwch e-bost at UPFSM@merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685 725000 a gofynnwch am yr Adran Prydau Ysgol a gadewch neges. Byddwn yn dychwelyd eich galwad cyn pen 10 diwrnod gwaith neu'n gynt.

Gan ddymuno gwyliau Pasg bendigedig i chi.



Fairyal Pabani

Rheolwr Arlwyo Ysgolion